

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Egwyddorion Pori Proffidiol
Sut mae Ffermwyr Seland Newydd
wedi addasu eu systemau.

CAFC 2017
Presenoldeb Cyswllt Ffermio
yn y Sioe Frenhinol.



Creinfâ Amasghyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi'n newn Arddedol Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 9 - Mai/Mehafin 2017 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Richard, Tudor a Helen Roderick, Newton Farm, Aberhonddu
Safle Arddangos Cyswllt Ffermio

Ym mis Medi cynhaliwyd ein cyfarfod agored fferm arddangos cyntaf, lle buom yn rhannu canlyniadau prosiect yn canolbwyntio ar gynnyrch treulio gwastraff bwyd fel dewis hyfyw yn lle gwrtaitth artiffisial. Eleni, am y tro cyntaf, gaeafwyd 85 o wartheg allan ar gnydau betys porthiant rhwng Tachwedd ac Ebrill. Roedd y tywydd yn ddelfrydol ac aeth y buchod a'r heffrod cyflo i'r cyfnod lloea hefo'r sgôr cyflwr delfrydol. Ers hynny, symudwyd heffrod wedi eu diddyfnu o'r betys porthiant i laswellt ac maent yn tyfu'n dda iawn. Byddant yn cael eu pwysu yn fuan a'u dewis ar gyfer rhaglen fridio eleni, a fydd yn cynnwys Tarw Potel wedi ei gydamseru. Arweiniodd defnyddio tarw potel ochr yn ochr â theiwr bridio at batrwm lloea llawer tynnach yn y gwanwyn eleni ac mae wedi galluogi i ni gyflwyno geneteg mamol dewisol, sydd yn cael ei ystyried yn hanfodol yn ystod cyfnod pan ydym yn adeiladu ein buches sy'n ei chyflenwi ei hun. Ar 5 Mai, driliwyd cnwd eleni o fetys porthiant, gan ddefnyddio'r math Robus. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r math hwn gan fod maint y bylbiau uwch ben y ddaear yn dda, sy'n ddelfrydol i'w bori lle mae'n tyfu. Sganiwyd a chneifiwyd y brif ddiadell o famogiaid yn ystod mis Rhagfyr, a'u rhoi i mewn ar silwair porthi eu hunain.

Roeddent yn wyna o 20 Chwefror ymlaen ac rydym wedi tynnu'r wyn cyntaf i'w gwerthu ar 8 Mai ar bwysau yn amrywio rhwng 40-46kg pwysau byw. Mae cyfradd dyfu'r wyn wedi plesio, ac fe'u dewiswyd o grwpiau sydd wedi eu porthi ar laswellt yn unig. Eleni bu Tudor, ein mab canol, yn wyna'r hesbinod tu allan am y tro cyntaf yn ystod gwyliau'r Pasg. Wrth lwc roedd y tywydd yn berffaith ar gyfer wyna allan.

O'r canlyniadau samplu pridd (*a wnaed gan Cyswllt Ffermio*), rydym wedi chwalu 280 tonnall o galch i ymdrin â lefelau pH y caeau a brofwyd. Mae'r grawn gwanwyn, betys porthiant a'r hadau gwair a heuwyd yn ddiweddar yn awr angen glaw gan fod y gwanwyn wedi bod yn arbennig o sych. Bydd swej yn cael eu hau yn fuan i borthi'r wyn benyw at y flwyddyn nesaf tan y gaeaf.

Yn dilyn ymweliad cyngori gan lan Pritchard o Goleg Gwledig yr Alban (SRUC), rydym yn parhau i bwysu gwartheg ifanc yn gyson i fonitro eu cyfraddau tyfu. Un o'r meysydd allweddol yr ydym yn canolbwyntio arno eleni fel fferm arddangos yw statws iechyd ein buches. Trwy weithio'n glos gyda'n milfeddyg lleol a SRUC rydym wedi gwella ein cynllun iechyd gwartheg yn sylweddol.

Mae Richard yn un o'n Mentoriaid Cyswllt Ffermio.

Paratoi uned biff at y dyfodol - defnyddio technoleg i ymdrin â dyfodol ansicr

Mewn cyfnod lle mae'r rhai sy'n pesgi biff yn wynebu prisiau cynyddol am nwyddau a phrisiau'r farchnad yn ansicr, un o'r agweddau allweddol fydd yn effeithio ar broffidioldeb busnes fydd ei gostau cynhyrchu. Ar Stad Rhug, mae'r rheolwr fferm Gareth Jones, gan weithio ochr yn ochr ag Emyr Owen, Swyddog Technegol Cig Coch Gogledd Cymru, yn bwriadu ail asesu'r fenter besgi biff bresennol. Y prif symbylydd ar gyfer cynnal y prosiect hwn yw sicrhau bod y busnes mewn sefyllfa ariannol bositif wrth edrych i'r dyfodol pan all y taliadau cymhorthdal ddod i ben. Yn ychwanegol at hyn, mae Gareth wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio technoleg EID i gynhyrchu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro perfformiad a chynllunio i farchnata'r gwartheg.

Mae'r dasg o gasglu data o'r ddwy flynedd gynhyrchu lawn diwethaf wedi dechrau. Mae'r gwaith cychwynnol hwn yn gam hanfodol wrth ddynodi meysydd y mae angen i'r fenter ganolbwyntio arnynt. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei orffen, gellir mynd ati i gasglu data a gosod targedau dangosyddion perfformiad allweddol. Er mwyn i'r broses hon fod yn rhwydd ac mor gywir â phosibl, penderfynodd Gareth Jones ei fod am fuddsoddi mewn offer EID. Mae cyfleusterau trin gwartheg eisoes yn eu lle yn Rhug, felly bydd yr agwedd hon o'r prosiect yn edrych ar yr ateb EID mwyaf cost effeithiol ar gyfer y fenter. Byddwn yn galw ar arbenigedd Meilir Jones, Fferm Gop (sy'n fentor Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd) i gynghori Gareth Jones sut i ddefnyddio'r dechnoleg ac i roi ffigwr enillion ar y buddsoddiad (ROI) a fydd o ddiddordeb i lawer o fentrau biff eraill.

Maes arall fydd yn cael ei asesu fydd maethiad. Ar hyn o bryd mae Rhug yn tyfu ceirch, triticale a silwair meillion coch fel sylfaen i'r diet pesgi yn y gaeaf. Ar hyn o bryd mae hyn yn gweithio'n dda fel cylchdro cnydio organig, ac i gynhyrchu porthiant a deunydd dan yr anifeiliaid o safon uchel. Bydd dewisiadau o ran porthiant gwahanol yn cael eu hystyried, ond gall yr ardystiad organig wneud hyn yn anodd.



PROFI – yr allwedd i gael pridd perffaith

Rhwng 2014 a 2017, cymerwyd cyfanswm o 4,848 sampl pridd ar draws Cymru fel rhan o raglen Cyswllt Ffermio. Dadansoddwyd y samplau pridd am pH, ffosforws (P), potasiwm (K) a magnesiwm (Mg). Cymerwyd samplau o wahanol fathau o bridd a systemau cynhyrchu dan amrywiaeth o gnydau.

Gwelwyd, ar gyfartaledd, bod gan briddoedd Cymru pH o 5.80, mynegai P o 2, mynegai K o 2- a mynegai Mg o 3.

Wrth adolygu'r data, sylweddolir mai dim ond tir sy'n tangyflawn fyddai'n cael ei gynnig i'w brofi er mwyn cymryd camau i'w wella. Dengys y canlyniadau bod 70% o'r priddoedd a brofwyd dan pH 6, sef lleiafswm y gwerth ar gyfer yr ystod pH delfrydol mewn pridd mwynol.

Mae asidrwydd y pridd yn amrywio ar draws y data a gall ddibynnu ar ffactorau fel glawiad a'r defnydd o wrtaith nitrogen. Gall ffactorau eraill effeithio ar asidrwydd, fel gwaddod llygrwyr o'r atmosffer gan gynnwys nitrogen.



Mae'n ymddangos bod y data a gasglwyd yn dynodi bod gan briddoedd Cymru lefelau P a K da, ond mae hyn yn dueddol o amrywio ar draws y wlad. Ar gyfartaledd, mae K y pridd ar y lefel cywir i'w bori, ond dylai fod yn uwch i gynhyrchu silwair.

Mae'n ymddangos bod Magnesiwm yn llai o broblem, gan fod 82% o'r priddoedd ar lefel derbynol - rhwng y mynegai 2 a 3. Mae'r potensial am hypomagnesaemia (diffyg magnesiwm) ar draws tir pori Cymru yn isel, gan mai dim ond 1% o'r tir a brofwyd oedd â lefelau Mg llai na'r mynegai 2, a dim ond 8% o dir pori oedd dros 2+ o ran mynegai K.

Mae'r adroddiad yma yn pwysleisio pwysigrwydd o brofion pridd rheolaidd. Gall y gwasanaeth ymgynghori ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau rheoli maetholion sy'n cynnwys dadansoddiad pridd. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol am ragor o wybodaeth.

Symud o wyna dan do i wyna allan: cael y camau sylfaenol yn iawn

Trwy symud o wyna dan do i wyna allan yn llwyddiannus, gwelwyd potensial y ddiadell ar fferm Penwern yn cynyddu'n ddramatig. Ar ôl gweld yr angen i gynyddu nifer y mamogiaid i gyd-fynd yn well â'r cynhyrchiant o'r glaswelltir, teimlai Rhun Fychan, sy'n ffermio rhwng Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron yng Ngorllewin Cymru, y byddai newid i ddiadell sy'n wyna allan yn gadael i'r ddiadell gynyddu heb gynyddu'r gofyn am lafur. Roedd gwneud gwell defnydd o'r gallu i dyfu glaswellt o safon uchel hefyd yn cael ei gweld yn ffordd o leihau costau cynhyrchu heb effeithio ar y cynnyrch.

Gan weithio gyda Swyddog Technegol Cig Coch Canolbarth Cymru, Catherine Nakielny, penderfynodd Rhun bod angen dull deuol gan ganolbwyntio ar iechyd y ddiadell a maethiad y mamogiaid i gael y mwyaf o'r mamogiaid a magu'r nifer mwyaf o wŷn. Bu'r milfeddyg annibynnol Kate Hovers yn gweithio gyda Rhun yn y cyfnod cyn wyna i ganfod unrhyw broblemau iechyd.

Yn ffodus ni welwyd unrhyw bryderon o bwys, ond trwy weithio gyda Kate llwyddwyd i ymdrin â materion fel rheoli parasitiaid a chloffni ddigon cyn y cyfnod wyna.

Roedd cloffni wedi bod yn broblem ar y fferm yn y gorffennol, ac yn ystod yr hydref blaenorol roedd Rhun wedi gweithredu'r cynllun cloffni 5 pwynt. Gyda chyfuniad o frechu, gwaredu a thrin anifeiliaid oedd yn dioddef yn brydlon, roedd Rhun wedi gweld cloffni yn gostwng a lefelau iechyd yn gwella.

Roedd maethiad hefyd yn allweddol yn ystod y prosiect. Roedd y mamogiaid yn cael eu cadw dan do yn hwyr yn eu beichiogrwydd cyn eu troi allan ar laswellt

a chymerwyd samplau gwaed er mwyn sicrhau bod y diet yn ddigonol (*proffilio gwaed metabolig*). Trwy wneud hynny gallai'r silwair toriad cyntaf ac ail doriad gael ei dargedu ar y grŵp mwyaf addas o famogiaid ar sail y dadansoddiad silwair a chanlyniadau'r samplu gwaed.

Ar ôl troi allan, glaswellt oedd yr unig ffynhonnell maeth felly roedd y prosiect Cyswllt Ffermio hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth gan yr arbenigwr pori cylchdro James Daniels. Gweithredwyd cynllun ar gyfer troi allan a dyrannwyd y caeau ymlaen llaw i'r grwpiau amrywiol o famogiaid yn cario wŷn unigol, efeiliaid a thripledi.

Dechreuodd yr wyna ar 1 Ebrill a thrwy fesur taldra'r glaswellt yn wythnosol gwnaed yn siŵr bod y mamogiaid yn cael digon o gynnwys sych i fodloni eu gofynion o ran egni a phrotein yn ddyddiol. Mae'r canlyniadau cynnar o'r prosiect eisoes wedi dynodi, ar gyfer y system ffermio yn Penwern, y gall wyna allan arwain at yr un cynnyrch er gwaethaf y gostyngiad o ran gofynion llafur a'r costau porthiant.

Collwyd llai na 10% o'r wŷn rhwng sganio a 1 mis oed. Mae Rhun yn bwriadu parhau i ddefnyddio dull rhagweithiol o gynllunio iechyd y ddiadell a rheoli glaswelltir i sicrhau bod y ddiadell yn cyflawni ei photensial gan leihau costau cynhyrchu.



Llwyddodd meillion blynyddol sy'n gallu gwrthsefyll sychder, a dyfwyd mewn prosiect Cyswllt Ffermio yng Nghymru, yn dda gan alluogi'r tyfwr i leihau costau porthiant gaeaf a'r mewnbwn o wrtaith artiffisial.



Mae gallu meillion Balansa a Berseem i sefydlogi nitrogen wedi gwella ffrwythlondeb y pridd yn Llyn Rhys, Safle Ffocws Cyswllt Ffermio ger Wrecsam. Mae'r meillion hefyd yn effeithiol wrth atal chwyn.

Mae meillion blynyddol yn cynhyrchu'n dda ac yn gallu gwrthsefyll sychder: Gallant ddarparu cynnwys organig i briddoedd gwan, gan gynorthwyo i gadw dŵr a sicrhau bod maetholion ar gael.

Heuodd Pearce Hughes, sy'n cadw diadell o 1,250 o famogiaid, blot treialu chwe erw o Balansa – meillion blynyddol sy'n gynhenid i ranbarthau gogledd-ddwyrain Môr y Canoldir.

Heuwyd yr hadau, math o'r enw 'Fixation' a ddatblygwyd yn America i fedru gwrthsefyll oerfel, gyda rhygwellt Eidalaid ar ddechrau Mehefin 2016. Heuwyd 5kg o Balansa (2kg/yr erw) a 22kg o Rygwellt Eidalaid (9kg/erw) i bob hectar. Yn wahanol i rai mathau o borthiant, mae Balansa yn llwyddo yn dda ar pH o 5.7- i 5.8.

Wrth ei hau, chwalwyd gwrtait 5:24:24 ar 246kg/ha ac yna 123kg/

ha o wrea bedair wythnos yn ddiweddarach.

Torrwyd y cnwd ar 10 Awst 2016, gan gynhyrchu 33 o fynau ar 630kg yr un – sy'n cyfateb i bedair tunnell yr hectar. Pennodd canlyniadau dadansoddiad o'r silwair werth protein craidd o 14.5%, 11.5MJ/kg o egni y gellir ei fetaboleiddio, a gwerth D o 72 a 46% o gynnwys sych (DM).

Mewn cymhariaeth, roedd silwair gwair a gynaeafwyd yn Llyn Rhys wedi cyrraedd protein crai o 11.7%, 11.6 MJ/kg ME a 81.9% DM. Porthwyd y silwair o'r cnwd Balansa i famogiaid yn cario gefeilliaid a thripled i ystod y cyfnod cyn ŵyna. Trwy fwydo'r porthiant o ansawdd gwell nid oedd rhaid rhoi dwysfwyd am bythefnos yn hwy, gan arwain at arbediad o £1.68 y pen, fe amcangyfrifir.

Roedd y Berseem wedi sefydlu yn dda erbyn y gwanwyn a thyfodd ar gyfradd gyfartalog o 31kg/DM/ha/dydd o 20 Mawrth ymlaen.

Ni chwalwyd gwrtait yr hydref diwethaf a dim ond unwaith y chwalwyd gwrtait 23:4:13 ar gyfradd o 187kg/ha (75kg/yr erw) yn gynnar ym mis Ebrill.

Arloesedd mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth Innovation in agriculture and forestry



Ian Beecher-Jones

Hyfforddwr ac Ymgynghorydd Ffermio Manwl Gywir

Bydd Ian ar gael yn ystod Sioe Frenhinol Cymru i drafod ac i gynnig cyngor ynglŷn â'r penderfyniadau yr ydych yn eu cynllunio yn ymwneud a buddsoddi mewn mecaneddio, gan gynnwys technoleg GPS ac opsiynau'r cynllun Grant Busnes i Ffermydd.

Mae'n rhaid archebu amser ar gyfer sgysiau unigol ymlaen llaw trwy gysylltu â Delana Davies: 07811 261628 - delana.davies@menterabusnes.co.uk



I gael manylion lleoliad, gweler y map CAFC ar dudalen 12.

Diogelu eiddo - cerbydau a da byw

Mae ffermwyr o bob cwr o Gymru yn cael eu hannog i edrych ar eu ffermydd gan chwilio am wendidau diogelwch posibl er mwyn rhwystro troseddwr rhag targedu eu heiddo. Gall newidiadau syml, gan amrywio o ddefnyddio cloeon gyda'r radd diogelwch uchaf hyd at glo trelar gwerth £20, atal ffermydd rhag dioddef trosedd.

Cynhaliwyd digwyddiad diogelwch ar fferm Trawscoed, un o Safleoedd Arloesedd Cyswllt Ffermio ger Aberystwyth, yn ddiweddar gyda siaradwyr gan gynnwys swyddogion yr heddlu ac arbenigwyr diogelwch ar lein.

Dangosodd Arfon Griffiths o gwmni Dyfed Alarms bam or syml oedd torri trwy glo safonol. "Ni fydd cloeon bychain yn diogelu unrhyw beth, felly peidiwch â bod yn gynnwl lle bo statws diogelwch do yn y cwestiwn," meddai Mr Griffiths.



Mae statws diogelwch ar gloeon yn amrywio o 1-15 - po uchaf y rhif, y mwyaf effeithiol yw'r diogelwch. Mae cloeon gyda chyfuniadau rhif yr un mor effeithiol â chloeon gydag allwedd, ond unwaith y bydd y cyfuniad rhifau wedi cael ei rannu, mae'n bwysig i'w newid.

Mae swyddfa'r fferm hefyd yn darged ar gyfer lladron, gyda seiberdroseddwr yn cymryd mantais o fesurau diogelwch cymharol wan ar lein er mwyn twyllo ffermwyr. Gall hacwyr ddefnyddio meddalwedd awtomataidd i ddyfalu cyfrineiriau trwy sganio'r cyfryngau


cymdeithasol a safleoedd eraill. Mae arbenigwyr yn argymhell y dylai cyfrinair gynnwys cyfuniad o lythrennau a rhifau nad oes modd eu dyfalu gan broses awtomataidd neu berson. Gallai gair Cymraeg fod yn ddewis arall hefyd gan ei fod yn gallu bod yn fwy heriol i droseddwr.

Daw'r bygythiad mwyaf i fusnes fferm o'r fferm ei hun. Daw'r bygythiad hwn pan fo aelodau o'r teulu neu staff yn clicio ar negeseuon e-bost annymunol neu annisgwyl a all heintio cyfrifiaduron gyda firsau. Er mwyn osgoi'r broblem awgrymodd Matthew Howells o Heddlu Dyfed Powys y dylai ffermwyr fael cyfrifiadur penodol ar gyfer busnes y fferm yn unig.

Soniodd Mr Howells hefyd bod risg gynyddol i ffermydd sy'n rhedeg busnesau arallgyfeirio megis meysydd gwersylla.

"Ceir risg diogelwch i'r busnes os bydd yn defnyddio'r un rhwydwaith wi-fi a'r gwesteion, ac mae'n bwysig bod ffermwyr yn ymwybodol o'r peryglon posibl"

Bu'r Archwilydd Matthew Howells yn cyfeirio ffermwyr at wefannau 'Get Safe Online' ac 'Action Fraud' am gyngor pellach.



Rheoli Staff - denu a chadw staff dibynadwy

Mae ffermwyr sy'n buddsoddi amser yn cymhell a hyfforddi gweithwyr yn fwy tebygol o gadw eu gweithlu.

Mae gweithwyr fferm yn aml yn fedrus ac yn brofiadol iawn, ond yn parhau i ystyried hyfforddiant a chyfleoedd datblygu yn y gweithle yn ddefnyddiol iawn o ran cymhelliant.

Gyda hyfforddiant priodol, gall gweithwyr deimlo'n fwy hyderus i gymryd mwy berchnogaeth o'u gwaith, clywodd ffermwyr yn ystod cyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Cyswllt Ffermio ac AHDB Llaeth, a hwyluswyd gan Jamie McCoy, Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio dros Dde Cymru.

Yn ôl Heather Wildman, o gwmni Saviour Associates, os bydd cyflogwr yn fodlon buddsoddi mewn hyfforddiant, bydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. "Mae'n dweud wrthynt eich bod eisiau iddynt fod yn rhan o'r busnes yn y tymor hir a'ch bod eisiau iddynt gymryd mwy o berchnogaeth, i ymfalchïo ac i wneud gwaith da.

"Mae gweithwyr yn gwerthfawrogi'r ystyriaeth sy'n cael ei roi i wella'u sgiliau ac mae ffermwyr yn cael gweithwyr gyda gwell sgiliau.

"Ni fydddech yn cadw wagen borthi heb ei gynnal a'i gadw, felly yn yr un modd, ni allwch ddisgwyl i'ch staff berfformio os nad ydych yn buddsoddi ynddynt o ran hyfforddiant, amser a digwyddiadau cymdeithasol,"

Mae cynnwys manylion gweithdrefnau a phrotocolau mewn llawlyfr staff yn galluogi staff

i weithio'n unigol, ond mae sicrhau'r diwylliant iawn o fewn y busnes yn bwysig hefyd.

"Mae'n ymddangos bod y cysyniad o hwyl wedi cael ei gollu ym myd busnes, er bod pobl yn chwethin, nid yw hynny'n golygu nad ydynt yn gweithio ac yn gwneud gwaith da," meddai Mrs Wildman.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn bwysig, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae'n rhaid sicrhau cyfathrebu clir a pharhaus, naill ai ar sail un i un neu fel grŵp. "Nid wyf yn credu bod un ffordd benodol o gyfathrebu, beth bynnag sy'n gweithio orau ar gyfer y busnes," meddai Mrs Wildman.

Mae'n rhaid i ffermwyr fod yn deg ac yn gyson o ran eu perthynas â staff. Nodweddion personoliaeth allweddol cyflogwr da yw'r gallu i feddwl yn bositif, i fod yn onest ac i ddirprwyo gwaith. "Cyfathrebu, ysbrydoli a chyfuno'r tîm. Mentora a rhoi canmoliaeth," cyngorodd Mrs Wildman.

Gall y ddynwag newid wrth i aelod newydd o staff ymuno â'r busnes, ond bydd sicrhau eu bod yn treulio amser yn gweithio gyda'r holl aelodau staff yn ei gwneud yn haws ac yn gynt i integreiddio.

Mae Heather Wildman hefyd yn gweithio gyda Ffermwr ar un o Safleoedd Arddangos Cyswllt Ffermio, sef Aled ar fferm Marian Mawr, yn gweithredu arfer dda o ran Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae cyrsiau hyfforddiant a gynigir trwy Raglen Datblygu Sgiliau Cyswllt Ffermio yn cael eu hariannu 80%.

Cydamseru estrws buches fagu i wella perfformiad

Mae ffrwythloni artiffisial yn cynnig ffordd fforddiadwy i ffermwyr gael gwell geneteg.

Defnyddio dulliau o gydamseru estrws i gynyddu elw fydd y prif ffocws yn Fferam Gyd, safle ffocws Cyswllt Ffermio arYnys Môn.

Gan weithio gydag Emyr Owen, Swyddog Technegol Cig Coch Gogledd Cymru, mae'r ffermwr Llŷr Hughes am geisio gweithredu rhaglen gydamseru estrws i 50 o wartheg magu Limousin masnachol gyda'r nod o gynhyrchu mwy o gilogramau o gig eidion i bob hectar.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio semen o ansawdd genetig uchel gyda nodweddion tyfu pendant a ffigyrau rhwyddineb lloea.

Er mwyn sicrhau bod cymhariaeth deg yn cael ei chyflawni, bydd grŵp o 30 o wartheg Limousin masnachol yn cael eu cadw gyda tharw'r fferm ar yr un pryd ag y bydd y rhaglen gydamseru yn dechrau.

Bydd data amrywiol yn cael ei gasglu yn ystod y prosiect, gan gynnwys; sgoriau cyflwr corff cyn cael tarw, iechyd a ffrwythlondeb, costau cysylltiedig, cyfraddau cyfloi a diagnosis beichiogrwydd. Bydd rhagor o ddata yn cael ei gasglu yn ystod cyfnod lloea 2018.



Egwyddorion ffermio tir glas proffidiol

Cymharodd llawer o ffermwyr yng Nghymru'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd â'r penderfyniad a wnaed gan Seland Newydd i dynnu cymorthdaliadau ar unwaith yn 1984. Er y gall y newidiadau sy'n wynebu ffermwyr Cymru fod yn debyg neu yn wahanol, mae llawer o wersi y gellid eu dysgu o'r modd y llwyddodd ffermwyr Seland Newydd i addasu eu systemau ffermio yn y blynyddoedd yn dilyn colli'r cymorthdaliadau.

Roedd rhoi gwerth ar y borfa yr oeddent yn ei dyfu a chanolbwyntio ar wir broffidioldeb y fenter yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau allweddol yn dilyn y newid. Fel y gwelodd ffermwyr Seland Newydd yn fuan iawn, nid oes dim byd rhatach na phorfa wedi ei dyfu ar y fferm.

Mae ansicrwydd prisiau'r farchnad yn y dyfodol yn ysgogi ffermwyr i ganolbwyntio ar feysydd y gallant eu rheoli.

Mae Murray Rohloff yn arbenigwr defaid o Seland Newydd a bydd yn ymweld â Chymru ym mis Mehefin. Yn ôl Mr Rohloff, mae egwyddorion i ffermio tir glas proffidiol y gellir eu haddasu i wella effeithlonrwydd busnes a phroffidioldeb.

Bydd gwella a rheoli ansawdd y borfa yn ystod y gwanwyn hwyr a'r haf yn hybu tyfiant yr ŵyn gan yr ystyrir mai'r dyddiau hyd eu lladd sy'n cael yr effaith mwyaf ar broffidioldeb diadelloedd defaid. Gall pori cylchdro ysgogi'r glaswellt i dyfu hyd at 80% yn fwy o gynnwys sych na systemau stocio sefydlog.

Mae cynyddu canrannau ŵyna, rheoli parasitiaid a chynyddu hyd oes y mamogiaid a'r hyrddod hefyd yn ffactorau allweddol i'w hystyried.

Bydd yr holl gyfarfodydd gyda Murray Rohloff yn edrych ar egwyddorion ffermio tir glas gyda'r nod o wella perfformiad y ddiadell.

DYDDIAD	AMSER DECHRAU	LLEOLIAD
Dydd Mercher 14/06/17	4.00pm – 6.00pm	Llysun, Llanerfyl, Y Trallwng SY21 OEL
Dydd Sadwrn 17/06/17	4.00pm – 6.00pm	Rhiwgriafol, Talywern, Machynlleth SY20 8NY
Dydd Llun 19/06/17	6.30pm – 8.30pm	Bribwll, Llanfyrnach, Sir Benfro SA35 0DA
Dydd Mawrth 20/06/17	2.00pm – 4.00pm	Mynachdy, Ynysybwl, Rhondda Cynon Taf CF37 3PP

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â **Phrosiect Porfa Cymru** ffoniwch ni ar **07985 379880** neu ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio.



Cyswllt Ffermio yn Sioe Frenhinol Cymru 2017 Farming Connect at the Royal Welsh Show 2017



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

ALLWEDD / KEY




Adeilad Lantra / Lantra Building



Defaid / Sheep



Coedwigaeth / Forestry



Maes Sioe
Frenhinol Cymru

Royal Welsh
Showground

Gwnewch siwr eich bod yn ymweld â Cyswllt Ffermio yn Sioe Frenhinol Cymru

ADEILAD LANTRA – Cyfle i chi siarad gyda staff Cyswllt Ffermio a dysgu am y gwasanaethau sydd ar gael.

YRADRAN GOEDWIGAETH – Os ydych chi'n goedwigwr, ffermwr a/neu yn meddu ar goetir, dewch draw i gwrdd â'r tîm a dysgu am y llu o fuddiannau a chyfleoedd o fewn y diwydiant.

LAB AMAETH – Arddangosfa o arloesedd ym myd Amaeth a Choedwigaeth gall drawsnewid y ffordd yr ydych yn gweithio yn y dyfodol.

COFIWCH – Er mwyn cael mynediad llawn i wasanaethau Cyswllt Ffermio mae angen i bob busnes gofrestru, dewch draw i gofrestru neu ailgofrestru eich busnes ar faes y sioe yn adeilad Lantra.

Make sure you visit Farming Connect at the Royal Welsh Show

LANTRA BUILDING – A chance for you to speak to Farming Connect staff and learn about the services on offer.

FORESTRY SECTION – Foresters, farmers and/or woodland owners here's your chance to meet the team and learn about the numerous benefits and opportunities within the industry.

AGRI LAB – An exhibition of Farm and Forestry innovations that could transform the way you work in the future.

REMEMBER – To access the full range of services offered by Farming Connect every business must be registered, call by to register or re-register your business at the Lantra building on the showground.

www.llyw.cymru/cyswlltffermio
www.gov.wales/farmingconnect

FACEBOOK: [facebook.com/farmingconnect](https://www.facebook.com/farmingconnect)
TWITTER: @FarmingConnect



Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch ar Ffermydd – Byddwch effro, byddwch yn ymwybodol, byddwch yn **DDIOGEL**

Ystyrir bod amaethyddiaeth yn un o'r diwydiannau peryclaf i weithio ynddo, gyda 29 o farwolaethau wedi eu cofnodi yn 2016 yn unig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn ôl y ffigyrau diweddaraf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Yr hyn sy'n achosi mwyaf o ddamweiniau ar ffermydd yw cludiant fferm, gyda da byw yn ail agos, sydd yn cynyddu ar hyn o bryd yng Nghymru.

Yn ôl Brian Rees, Cadeirydd Siarter Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru, dylai ffermwyr fod yn fwy effro ac ymwybodol o'r risgiau posibl i ddiogelwch wrth drin gwartheg, yn arbennig yn ystod y cyfnod lloea.

“Er bod ffermwyr yn dueddol o fod yn fwy gofalus o gwmpas eu gwartheg yn ystod y cyfnod lloea, mae'n ymddangos eu bod yn dal i fod yn rhy hy o gwmpas buchod newydd loea,” dywedodd Mr Rees.

“Arweiniodd hyn at gynydd yn y damweiniau yn gysylltiedig â da byw yng Nghymru, gwartheg yn neilltuol felly.”



Y dyddiau hyn nid yw gwartheg yn cael eu rheoli yn yr hen ffyrdd traddodiadol, sy'n golygu eu bod yn cael llai o gyswllt uniongyrchol â phobl yn ddyddiol.

“Erbyn hyn mae gwartheg yn cael eu porthi yn bennaf gan beiriannau ac ar feic modur yr eir o'u cwmpas ar y cae, ond ddegawdau yn ôl roeddent yn cael eu porthi â llaw a byddai'r ffermwr yn cerdded o'u cwmpas gan eu gwneud yn fwy dof a haws eu trin,” dywedodd Mr Rees.

Ond, cludiant fferm yw'r rheswm mwyaf cyffredin am ddamweiniau ar ffermydd, sy'n cynnwys tractorau, beiciau modur a pheiriannau cludo 'tele'. Lanswyd yr ymgyrch 'Stopio Saff' yn 2013 gan y Bartneriaeth Diogelwch Fferm i bwysleisio pwysigrwydd rhoi'r brêc llaw ymlaen yn iawn ar beiriannau fferm.

“Bydd pobl yn rhoi'r brêc llaw yn awtomatig wrth stopio car, felly mae'n holl bwysig i'r un patrwm gael ei ddilyn wrth stopio peiriannau”, pwysleisiodd Mr Rees, sydd hefyd yn rhoi hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch Fferm fel rhan o'i waith dyddiol.

Awgrymodd Mr Rees y dylai ffermwyr roi amser i gerdded o gwmpas eu ffermydd i weld peryglon posibl a all greu risg i ddiogelwch, a gweithredu cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

“Mae mor bwysig i ffermwyr fod yn ymwybodol o ddiogelwch yn gyson wrth wneud eu gwaith bob dydd. Rhaid i iechyd a diogelwch fod yn flaenoriaeth bob amser beth bynnag y byddwch yn ei wneud, rhowch amser i asesu'r sefyllfa yn llawn - gall hyn achub eich bywyd”.



Amser i chwilio am eich pasbort!

Mae'r cyfnod ymgeisio wedi dechrau ar gyfer ein Rhaglen Gyfnewidfa Rheolaeth. Rydym yn chwilio am ffermwyr neu goedwigwyr uchelgeisiol sy'n awyddus i ehangu eu gorwelion trwy gymryd rhan mewn ymweliad cyfnewid i aelod wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd a/neu westeio ffermwr neu goedwigwr o dramor ar eich daliad. Os cewch eich dewis, gall eich ymweliad gael ei ariannu yn llawn hyd at uchafswm o £4,000.

"Mae hwn yn gyfle gwych i ddysgu am ffyrdd newydd neu well o weithio yn y sectorau fferm neu goedwigaeth yn Ewrop, i gael gwybod am dulliau gwahanol o reoli busnes ac i ehangu eich gwybodaeth, gallu technegol ac arbenigedd rheoli," meddai Einir Davies, Rheolwraig Datblygu a Mentora Cyswllt Ffermio.

"Nod y rhaglen yw galluogi'r ddwy ochr i weld cyfleoedd, o ran datblygiad personol a busnes, a dysgu arfer gorau newydd a blaengar y gallant eu gweithredu gartref a'u rhannu gyda'r diwydiant yn ehangach yng Nghymru," dywedodd Miss Davies.

Mae'r cyfnod derbyn ceisiadau ar agor rhwng **1 Mehefin** a **1 Gorffennaf 2017**.

Am wybodaeth fwy manwl am fanteision y rhaglen hon, y telerau ac amodau, y meini prawf cymhwyster ac i lawrlwytho'r ffurflenni cais, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ac entrepreneuriaid gwledig - 40 o ymgeiswyr llwyddiannus wedi eu dewis ar gyfer Academi Amaeth 2017



Gan adeiladu ar lwyddiant yr Academi Amaeth, rhaglen ddatblygu personol fawr ei chlod Cyswllt

Ffermio, dewiswyd 40 o ymgeiswyr i gymryd rhan eleni.

Mae'r Academi Amaeth yn cynnwys tair rhaglen benodol; y rhaglen Busnes ac Arloesedd, y rhaglen Arweinyddiaeth Wledig sydd yn cael ei rhedeg ar y cyd â Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, a Rhaglen yr Ifanc, ar y cyd â CFfl Cymru, sy'n agored i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.

Dywedodd yr Athro Wynne Jones OBE, cadeirydd panel dewis yr Academi Amaeth, ei fod ef a'i gyd-feirniaid yn gytûn bod safon y ceisiadau eto yn eithriadol o uchel, a'i bod yn waith caled 'dewis y gorau o'r gorau' o 65 o geisiadau.

"Fel arfer, roeddem yn chwilio am ymgeiswyr oedd yn gallu dangos uchelgais, ymrwymiad ac ymdeimlad cryf o ffocws, ond yn bennaf oll, fe wnaethom ddewis pobl yr ydym yn teimlo bod ganddynt y potensial i gyfrannu mwyaf at ddyfodol y diwydiant amaeth a chymunedau gwledig yng Nghymru."



Mae **MEGAN MCNAMARA**, nyrs ran amser a fentrodd yn ddiweddar i gynhyrchu a marchnata cig gafr Boer ger Claberston Road, yn Sir Benfro, wrth ei bodd

o gael ei dewis ar gyfer y rhaglen Busnes ac Arloesedd.

Gobaith Megan yw y bydd yr Academi Amaeth yn rhoi'r sgiliau a'r hyder sydd arni

eu hangen iddi i gyflawni ei chynlluniau uchelgeisiol i ehangu'r busnes, gan ddyblu ei gyrr i 200 o eifr magu dros y 18 mis nesaf.



Yn llwyddiannus i gael lle ar y rhaglen Arweinyddiaeth Wledig roedd y ffermwr biff a defaid **GARETH DAVIES** o Howey ger Llandrindod. Mae Gareth yn awyddus i

ddechrau datblygu syniadau ac i rwydweithio gyda phobl o'r un meddylfryd yn y diwydiant. Mae'n gobeithio y bydd yr Academi Amaeth yn rhoi llwyfan i'w lais gael ei glywed a rhoi'r sgiliau a'r hyder iddo ysbrydoli eraill.



Roedd **GUTO HUWS**, myfyriwr amaethyddol yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Glynllifon, yn un o'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer Rhaglen yr Ifanc. Mae

Guto yn rhannu ei amser rhwng ei astudiaethau a helpu ei dad ar eu fferm deuluol ger Trawsfynydd. A'i olygon ar astudio Amaeth yn y brifysgol mae'n credu y bydd yr Academi Amaeth lau yn cefnogi ei gais fel y mae wedi gwneud ar gyfer aelodau yn y gorffennol. Mae Guto yn awyddus i gael cymaint o brofiad ag sy'n bosibl cyn defnyddio ei wybodaeth newydd ar y fferm deuluol.

Er mwyn darllen rhagor am bob ymgeisydd llwyddiannus a sut y maent yn gobeithio cael budd o'r Academi Amaeth ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Rhaglen Fentora

Mewn diwydiannau tu allan i amaethyddiaeth, mae defnyddio mentor fel clust i wrando ac i rannu syniadau, holi am arweiniad a chefnogaeth yn broses sy'n digwydd yn aml. Mae'r Rhaglen Fentora, a lansiwyd ychydig dros 12 mis yn ôl bellach, yn annog ffermwyr a choedwigwyr i wneud yr un fath. Hyd yma, mae dros 60 unigolyn wedi dewis mentor ac yn elwa o'r broses o ddysgu gan gymheiriaid a rhannu gwybodaeth er mwyn arwain eu busnesau yn eu blaen.

Mae wyth ffermwr newydd wedi ymuno â'n tîm yn ddiweddar, gan gynyddu'r rhwydwaith i gyfanswm o 48 mentor. Maent yn meddu ar ystod eang o brofiadau, o ynni adnewyddadwy i gynhyrchu gwin. Mae gan ein Mentoriaid brofiad personol, a gallant ddatblygu partneriaeth gyda chi'n seiliedig at ymddiriedaeth a pharch cyffredin. Byddant yn gallu rhannu eu gwybodaeth, eu profiad a'u barn ddiudedd i'ch cynorthwyo i adnabod eich nodau a chyflawni eich potensial. Mae'n gyfle i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, i wrando, dysgu ac ehangu eich gorwelion a allai yn ei dro eich cynorthwyo i ganfod dulliau newydd i fynd i'r afael â sefyllfaoedd newydd ac ymdrin â heriau.

I weld y Cyfeiriadur Mentoriaid yn ei gyfanrwydd, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio
Y mentoriaid newydd yw:



Abi Reader

Lleoliad: Morgannwg
Sector(au) Allweddol: Llaeth
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Dangosyddion Perfformiad
Allweddol ar gyfer y fuches laeth, cysylltiadau gyda chwsmeriaid



Robb Merchant

Lleoliad: Sir Fynwy
Sector(au) Allweddol: Gwinwyddaeth
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Cynhyrchu gwin, arallgyfeirio ar ffermydd ar raddfa fechan



Eilir Evans

Lleoliad: Ceredigion
Sector(au) Allweddol: Llaeth
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Rheoli glaswelltir, cyllidebu ariannol, mentrau ar y cyd



Sion Ifans

Lleoliad: Meirionnydd
Sector(au) Allweddol: Biff, Defaid
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Monitro a gwella'r ddiadell gan ddefnyddio offer EID, Meincnodi



James Raw

Lleoliad: Ceredigion
Sector(au) Allweddol: Biff, Defaid, Coedwigaeth, Âr
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Ynni adnewyddadwy (Dŵr), twristiaeth, dyluniad adeiladau



Teifi Davies

Lleoliad: Ceredigion
Sector(au) Allweddol: Biff, Llaeth, Dofednod, Garddwriaeth, Bwyd a Diod
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Arallgyfeirio fferm, gwerthu o giât y fferm



Jenny Davies

Lleoliad: Ceredigion
Sector(au) Allweddol: Biff, Llaeth, Dofednod, Garddwriaeth, Bwyd a Diod
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Arallgyfeirio fferm, gwerthu o giât y fferm, safonau masnach a gofynion iechyd yr amgylchedd



Tony Davies

Lleoliad: Maesyfed
Sector(au) Allweddol: Defaid, Coedwigaeth, Ynni Adnewyddadwy, Llety Gwyliau
Arbenigedd(au) neu ddiddordeb(au) allweddol: Ynni Adnewyddadwy (Solar PV), ffermio'r ucheldir, cynlluniau amgylcheddol, gwerthu uniongyrchol



CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

Chwilio am lwybr i'r diwydiant ffermio? Mae dros 4,000 erw'n cael eu cynnig i newydd ddyfodiaid trwy'r rhaglen Mentro

Mae nifer yn tybio bod cytundebau mentrau ar y cyd bob amser yn cyfeirio at drefniant ffermio ar gytundeb neu ffermio cyfran. Mae hefyd yn cael ei ystyried yn fwy perthnasol i'r diwydiant llaeth. Fodd bynnag, mae'r cynllun Mentro ar hyn o bryd yn hwyluso 26 menter ar y cyd posibl, gyda 65% ohonynt yn fentrau Biff a Defaid.

Rydym hefyd wedi gweld bod modd datblygu amrywiaeth o fodolau dros amser i roi mwy o annibyniaeth i'r newydd ddyfodiad. Mae hyn yn ei wneud yn ddewis hyblyg i unrhyw fusnes, ac mae'n golygu y gellir ei deilwra'n benodol ar gyfer eich sefyllfa a'ch gofynion ar unrhyw adeg.

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiad sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

Os ydych chi'n meddwl y byddai menter ar y cyd yn ddewis addas ar eich cyfer chi, os ydych yn dechrau ystyried cymryd cam yn ôl neu'n dymuno cynnig cyfle i newydd ddyfodiad ddechrau ffermio, cysylltwch â ni. Yn y lle cyntaf, rydym ni ar gael i'ch cynorthwyo i benderfynu a yw'n opsiwn addas ac i dawelu'ch meddwl ynglŷn â'r broses. Nid oes angen i chi bryderu ynglŷn ag ymrwymo i unrhyw beth nawr.

Fel arall, os ydych yn newydd ddyfodiad, yn gobeithio camu i mewn i'r diwydiant, cofrestrwch gyda Mentro heddiw i ddarganfod mwy am y cyfleoedd sydd ar gael, gyda chyfanswm o 4,000 erw o dir ar gael, gallai hyn fod yn gyfle i chi gamu i mewn i'r diwydiant.

08456 000 813

Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
14/06/17 14:00-16:00	Rheolaeth llyngyr a manteision defnyddio EID	Tyn y pant, Manafon, Welshpool, Powys, SY21 8BJ	Menna Williams 07399 600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
15/06/17	A yw eich busnes fferm wedi'i ddiogelu?	Cae Haidd, Nebo, Llanrwst, Conwy, LL26 0TF	Gethin Davies 07772 694941 gethin.prys.davies@menterabusnes.co.uk
15/06/17 16:00-18:30	Wŷna ar laswellt - gwneud y defnydd gorau o bori dros y gwanwyn	Penwern, Cilcennin, Lampeter, Ceredigion, SA48 8RT	Catherine Nakielny 07985 379890 catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk
20/06/17 19:30-21:30	Masnach Yn Y Farchnad Fyd-Eang	The Eagles Hotel, Llanrwst, LL26 0LG	
20/06/17 12:30-15:00	Genomeg yn y fuches laeth	Cardigan Rugby Club, Gwbert Road, Ceredigion, SA43 1PH	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
20/06/17 19:30-21:30	Genomeg yn y fuches laeth	Lampeter Rugby Club, North Road, Ceredigion, SA48 7JA	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
22/06/17 12:00-15:00	Gwneud y gorau o werth economaidd anifeiliaid di-asgwm-cefn a pheillwyr mewn systemau pori	Pant Glas farm, Llanboidy, Whitland, Carmarthenshire, SA34 0EX	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
27/06/17 19:30-21:30	Masnach Yn Y Farchnad Fyd-Eang	Brecon Livestock Market, Brecon, LD3 8EX	
28/06/17 11:00-15:00	Cyfleoedd i blannu coed a chael mynediad at y cod carbon coetiroedd i gynyddu incwm y fferm	Tynyberth, Abbeycwmhir, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PU	Geraint Jones 07398 178698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
01/07/17	Sioe Sir Fynwy	Monmouthshire Showground, Monmouth, NP25 4LG	
06/07/17 18:30-21:00	Tyfu a marchnata hopys, a chyfleoedd tyfu newydd	Bubbleton Farm Shop, Penally, Tenby, Pembrokeshire SA70 7RY	Delana Davies 07811 261628 delana.davies@menterabusnes.co.uk
24/07/17 - 27/07/17	Sioe Frenhinol Cymru	Royal Welsh Show, Llanelwedd, Builth Wells, Powys LD2 3SY	
25&26/ 07/17 10.00-16.00	Penderfyniadau yn ymwneud â chynllunio i fuddsoddi mewn mecanieiddio gyda lan Beecher-Jones	Royal Welsh Show, Llanelwedd, Builth Wells, Powys LD2 3SY	Delana Davies 07811 261628 delana.davies@menterabusnes.co.uk
02/08/17	Sioe Sir Aberteifi	Briscwm Field, Briscwm Field, Pembrokeshire, SA43 1DR	
09/08/17	Sioe Bro Morgannwg	Fonmon Castle Grounds, Fonmon, Barry, Vale of Glamorgan, CF62 3ZN	
11/08/17	Sioe Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan	Pontfaen Fields, Lampeter, Ceredigion	
15-16 /08/17	Sioe Amaethyddol Môn	Tŷ Glyn Williams, The Showground, Gwalchmai, Holyhead, Anglesey, LL65 4RW	
15-17 /08/17	Sioe Sir Benfro	Haverfordwest, SA62 4BW	
17/08/17	Sioe Dinbych a Fflint	1 Cross Street, Holywell, Flintshire, CH8 7LP	
23/08/17	Sioe Sir Meirion	Cader Rd, Land Leaf, Dolgellau LL40 1SG	
24/08/17	Sioe Digwyddiad Dom a Phridd	Coleg Sir Gar, Gelli Aur Campus Llandeilo, Carmarthenshire, SA32 8NJ	